

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD YN  
YSGOL PANTPASTYNOG AR NOS LUN 25AIN O IONAWR 2016 AM 7.30 P.M.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Stan Williams (Cadeirydd), Phillip Williams, Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Elfed Williams, Bari Evans, Hywel Davies a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Gwennan Hughes, Iwan Jones a Falmai Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Dachwedd 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i fewn i'r materion ffyrdd a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych am wneud arolwg cyflymdra traffic trwy Bentre' Llanrhaeadr i asesu'r cyflymdra'r traffig cyn penderfynu ar oleuadau fflachio ar y safle. Cytunodd y Clerc i ofyn am ganlyniad yr asesiad.

C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i Gyngor Sir Ddinbych am gopi o'r ddeddf sydd y anatal Siop-y-Pentre rhoi arwyddion ar dir glas to allan i'r Siop.

D. Mae'r lloches bws newydd i Saron wedi cyrraedd Pen-y-Bryn Joinery yn Ninbych.

E. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Gyngorydd Phillip Williams bod yr Esgobaeth Llanelwy yn edrych i mewn i'r mater o gael mynwent newydd i'r Eglwys Llanrhaeadr.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £19,465.00.

B. Derbyniwyd y rhan olaf o'r 2015/16 Precept - £3,976.00.

C. Taliad i Gyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.

5. PRECEPT 2016/17 Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gadael Precept y Cyngor am y flwyddyn 2016/17 ar £24.00 ar yr 499 o dai yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £11,976.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Dymchwel adeilad allanol ac adeiladu adeilad newydd i chwaraeon yn Fron Ystrad, Llanrhaeadr.

2. Datblygiad cyfreithiol toriad amod preswyl amaethyddol yn Hafod-y-Bryn, Llanrhaeadr.

3. Cais cynllunio i'r amod 17 yn Brÿn Morfydd, Llanrhaeadr. Derbyniwyd copi o lythyr yn gwrthwynebu'r cais oddi wrth Pen Bryn Llan, Llanrhaeadr.

4. Gwaith gwella'r briffordd ar dir iard Bryn Glas, Saron (Cyngor Sir Ddinbych).

B. Mae'r ymgeiswyr y ceisiadau cynllunio canlynol sydd wedi eu gwrthod wedi mynd i apêl:-

1. Is-orsaf trydan yng Nghoedwigaeth Clocaenog.

2. Adeiladu tŷ un llawr (cais amlinell) ar dir yng Nghaer Mynydd, Saron.

C. Derbyniwyd cais cynllunio am newid amod 3 ar ddau dyrbin wynt yn Brenig, Nantglyn - penderfynwyd yr aelodau i'r Gyngorydd Iona Edwards-Jones paratoi sylwadau dros y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais.

D. Derbyniwyd cais cynllunio am estyniad i'r Fron, Prion - dim gwrthwynebiad (derbyniwyd datgan diddordeb gan y Gyngorydd Hywel Davies ac nid chymerodd rhan yn y drafodaeth).

## 7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Swyddog Cludiant Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau ei fod wedi derbyn cais am safle bws ychwanegol wrth faes parcio "The Lodge" yn Llanrhaeadr. Chadarnhaodd y Swyddog bod yna digon o dir yn unig i gyfeiriad Rhuthun a gofynni'r farn y Cyngor Cymuned. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r safle bws ychwanegol.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gyrru llythyr at berchnogion "Church House" a "School House" ym Mhrion yn cynnwys map i roi'r ffin yr "Hen Chwarel" yn ôl fel y wreiddiol.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc diolch i'r Cyngor Sir Ddinbych am y gwaith ar y tir o flaen Ysgol Bro Cinmeich, Llanrhaeadr, ond, i ofyn a oes modd estynni'r ffens diogelwch a rhoi'r set gyhoeddus (yn cynnwys y plac) yn ôl ar y safle.

C. Derbyniwyd gwybodaeth bod cyflwr y ffordd heibio'r Fron, Prion wedi mynd yn fwy peryglus. Penderfynwyd y Clerc gofyn am gyfarfod safle gyda Swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Priffyrdd at y materion ffyrdd canlynol yn y gymuned:-

1. Problem dwr yn cynyddu ar y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Llanynys.
2. Arwydd yn dangos ffordd i Ysgol Pantpastynog a'r ffordd o Brion i Saron.
3. Problem dwr yn cynyddu ar y ffordd heibio Tan-yr-Accar yn Llanrhaeadr.
4. Mae'r angen glanhawr gwli ar nifer o ffyrdd yn y gymuned.
5. Eisiau tomennu graeanu ar y ffordd rhwng Prion a Saron a Phentre' Saron at Meifod a hefyd wrth Ysgol Pantpastynog, Prion.

E. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar sedd gyhoeddus sydd angen sylw wrth Tyddyn Uchaf. Penderfynwyd asesu'r gwaith sydd ei angen cyn penderfynu trwsio neu brynu sedd gyhoeddus newydd.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 29ain o Chwefror 2016 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.